Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 356 (Cymru) – 22 Rhagfyr 2023**

## Diweddariad ar ganllawiau

### Templedi pecynnau enwebu

Yn dilyn y newidiadau i ddeddfwriaeth ar enwau a ddefnyddir yn gyffredin, dylanwad gormodol, a chyflwyno’r drosedd newydd o fygylu, mae’r pecynnau enwebu ar gyfer etholiadau [Senedd y DU] ac etholiadau [Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu] i gyd wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r mesurau newydd.

Daw'r newidiadau hyn i rym o 2 Mai 2024 ymlaen.

Yn ogystal â'r newidiadau uchod, mae pecyn Senedd y DU hefyd yn cynnwys newid i'r ffurflen cyfeiriad cartref. Mae'r newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn berthnasol i etholiadau Senedd y DU a gynhelir o 2 Mai 2024 ymlaen.

### Togo a Gabon: diweddariadau i ganllawiau Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Yn unol â [Gorchymyn Cenedligrwydd Prydeinig (Eswatini, Gabon a Togo) 2023] sy’n diwygio Deddf Cenedligrwydd Prydain ac a ddaeth i rym ar 15 Rhagfyr, mae dinasyddion Togo a Gabon bellach yn gallu cofrestru i bleidleisio fel dinasyddion y Gymanwlad. Rydym wedi diweddaru [ein canllawiau] ac unrhyw adnoddau perthnasol i adlewyrchu'r newid hwn.

Cysylltwch â [gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk] os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## Gwefan y Comisiwn: newidiadau i'r strwythur gwybodaeth

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella [ein gwefan], fel ei bod yn haws i chi ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch a'i deall.

Rydym wedi bod yn gweithio ar brosiect i wella strwythur, gwe-lywio a dewislen ein gwefan. Mae ein data yn dangos nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i wybodaeth benodol, a gwyddwn y gall hyn fod yn ddryslyd ac weithiau yn rhwystredig.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Diweddariad ar ganllawiau**

Gwybodaeth a dolen i becynnau enwebu wedi'u diweddaru, a gwybodaeth am Orchymyn Cenedligrwydd Prydeinig (Eswatini, Gabon a Togo) 2023 ac ymestyn hawliau pleidleisio i ddinasyddion Gabon a Togo.

**Gwefan y Comisiwn: newidiadau i'r strwythur gwybodaeth**

Gwybodaeth am newidiadau i strwythur ein gwefan, sydd wedi'u cynllunio i'w gwneud yn haws i fynd trwyddi.

**Cod ymddygiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymgyrchwyr: ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd**

Gwybodaeth a dolen i'r cod ymddygiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymgyrchwyr mewn etholiadau a gedwir yn ôl i adlewyrchu'r darpariaethau newydd ar gyfer ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd.

**Rhannu Arfer Da: recriwtio staff dros dro**

Gwybodaeth a dolen i'n hadnodd Rhannu Arfer Da, sy'n manylu ar wahanol ddulliau o recriwtio staff ar gyfer y diwrnod pleidleisio.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif**

Rydym bellach wedi cyrraedd diwedd y prosiect hwn, a lansiwyd y newidiadau ar 19 Rhagfyr.

Mae'r newidiadau i brif we-lywio'r wefan. Rydym wedi symud i ffwrdd o strwythur y ddewislen ‘Rwyf yn’ a ‘Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud’ i gael saith opsiwn i ddewis ohonynt. Un o’r opsiynau hyn yw ‘Ein canllawiau’. Drwy ddewis yr opsiwn hwn, gallwch ddewis y canllawiau sydd eu hangen arnoch, fel yr oeddech yn arfer ei wneud o'r gwymplen 'Rwyf yn'.

Nid yw'r canllawiau eu hunain, a sut yr ydych yn eu llywio, wedi newid fel rhan o'r prosiect hwn. Bydd unrhyw ddolenni y gallech fod wedi'u cadw i dudalennau gwe penodol yn parhau i weithio.

## Cod ymddygiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymgyrchwyr: ymdrin â phleidleisiau post a chyfrinachedd

Mae Deddf Etholiadau 2022 yn ei gwneud yn drosedd i ymgyrchwyr gwleidyddol ymdrin â dogfennau pleidleisio drwy’r post person arall, gydag eithriadau ar gyfer aelodau agos o’r teulu, priod, cydbreswylwyr neu bobl y maent yn darparu gofal ar eu cyfer.

Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw un geisio cael neu gyfathrebu unrhyw wybodaeth am bleidlais bost pleidleisiwr neu dros bwy y maent wedi pleidleisio. Mae'r newidiadau hyn yn berthnasol ym Mhrydain Fawr yn etholiadau Senedd y DU, etholiadau lleol a maerol yn Lloegr, ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.

Rydym wedi diweddaru'r Cod Ymddygiad i Ymgyrchwyr ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl i adlewyrchu'r newidiadau cyfreithiol.

Er y bydd y troseddau newydd yn berthnasol am y tro cyntaf mewn etholiadau a drefnwyd yn 2024, roedd y Cod blaenorol eisoes yn argymell na ddylai pleidiau, er mwyn osgoi canfyddiadau o dwyll etholiadol, ymdrin â phleidleisiau wedi'u cwblhau na chymryd pecynnau pleidleisio drwy'r post gan bleidleiswyr.

## Rhannu Arfer Da: recriwtio staff dros dro

Rydym wedi cyhoeddi adnodd newydd heddiw a gynlluniwyd i rannu gwahanol ddulliau o recriwtio staff ar gyfer y diwrnod pleidleisio.

Un o themâu cyson ein hymgysylltiad â gweinyddwyr etholiadol fu'r her o recriwtio staff ar gyfer y diwrnod pleidleisio.  Ledled Prydain Fawr mae timau wedi ymateb mewn sawl ffordd i sicrhau staff.

Mae’r adnodd hwn yn adlewyrchu profiadau nifer fach o awdurdodau lleol yn Lloegr, sydd wedi datblygu dulliau sydd wedi eu helpu, a gobeithiwn y gallant fod o gymorth i eraill. Mae'r enghreifftiau a amlinellwyd yn amlygu rhai o'r ffyrdd ymarferol y mae heriau recriwtio wedi'u goresgyn. Rydym yn bwriadu ychwanegu rhagor o enghreifftiau at yr adnodd hwn gan awdurdodau yng Nghymru yn y misoedd nesaf.

Rydym yn croesawu enghreifftiau pellach o wahanol ddulliau a llwyddiannau gan weinyddwyr, ar y pwnc hwn a phynciau eraill, y gellid eu rhannu. Cysylltwch â

**ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a’ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk i'n helpu i rannu mwy o arfer da.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2023